George Whitefield 1714–1770

Arweinydd y Methodistiaid Calfinaidd

Ganwyd George Whitefield ar 16 Rhagfyr 1714 yn The Bell Inn, Southgate Street, Caerloyw, yr ieuengaf o saith o blant i'r tafarnwr Thomas Whitefield a'i wraig Elizabeth.

Pan oedd George yn ddwyflwydd oed bu farw ei dad, ac fe aeth i'r Cathedral School yng Nghaerloyw pan oedd yn un ar ddeg. Flwyddyn yn ddiweddarach aeth i Ysgol St Mary de Crypt gan ymddiddori mewn areithyddiaeth a chofio. Yr oedd yn mwynhau darllen dramâu ac actio yn fawr iawn. Matriciwleiddiodd yng Ngholeg Pembroke, Rhydychen, ym 1732. Trwy gyfeillgarwch â Charles Wesley dechreuodd fynychu yr 'Holy Club' sef cyfarfod o Gristnogion oedd yn arfer hunanddisgyblaeth lem. Ar ôl ympryd tymor y Grawys eithriadol o lym ym 1735 bu'n rhaid iddo adael Rhydychen oherwydd salwch ond dychwelodd y flwyddyn ddilynol i barhau gyda'i astudiaethau gan ennill gradd BA.

Ordeiniwyd ef yn ddiacon yn Eglwys Gadeiriol Caerloyw ym mis Mehefin 1736 a'r Sul dilynol fe bregethodd ei bregeth gyntaf yn St Mary de Crypt. Yn ystod y flwyddyn ddilynol bu'n gwasanaethu yn Nhŵr Llundain a threfi yn Hampshire a Swydd Gaerloyw gan bwysleisio ailenedigaeth. Casglodd hefyd arian at ysgolion ac at waith cenhadol yn Georgia yn America. Cyhoeddodd un o'i bregethau ym 1737 sef *The Nature and Necessity of our New Birth in Christ Jesus, in Order to Salvation.* Y flwyddyn ddilynol hwyliodd i Georgia gan sefydlu cartref i blant amddifad ond dychwelodd i Loegr ar ôl cyfnod o chwe mis gan gael ei ordeinio'n offeiriad yn Eglwys Crist, Rhydychen, ym 1739. Llythyrodd gyda Howell Harris yng Nghymru a dilynodd ei esiampl trwy ddechrau pregethu yn yr awyr agored. Dechreuodd pobl dyrru yn eu cannoedd a'u miloedd i wrando arno. Er i George Whitefield a John Wesley gydweithio ar y dechrau bu anghydweld rhyngddynt ynglŷn â rhagarfaethiad a holltodd y mudiad Methodistaidd yn ddwy ran. Ym 1739 dychwelodd George Whitefield i America a threuliodd 15 mis yn pregethu gan deithio o New England i Georgia. Trwy ei waith dechreuodd diwygiad ysbrydol.

Dywedir ei fod yn bregethwr grymus ac effeithiol a'i fod wedi pregethu cymaint â 18,000 o weithiau. Ni fyddai byth yn defnyddio nodiadau nac ychwaith yn baglu dros ei eiriau ond byddai yn eithriadol o ddramatig a byddai'n wylo yn aml. Aeth Benjamin Franklin i wrando arno unwaith heb unrhyw fwriad i gyfrannu at ei gartref i blant amddifad ond wedi gwrando arno roedd yn fwy na pharod i fynd i'w boced.

Dychwelodd i Loegr ym 1741 mewn dyled fawr o £1,000. Gadawodd Loegr yn arweinydd mudiad Cristnogol newydd ond yn ei absenoldeb cymerwyd yr awenau gan John Wesley. Aeth ar daith bregethu i'r Alban ac yno fe'i cyhuddwyd o fod yn or-emosiynol. Bu ar ymweliadau hefyd â Chymru yng nghwmni Howell Harris. Ym mis Tachwedd 1741 priododd Elizabeth James – cyn ddyweddi i Howell Harris – yng Nghapel Martin, Caerffili. Dychwelodd i America rhwng 1744 a 1748 gan bregethu yn New England a South Carolina. Wedi'r cyfnod yn America daeth yn ôl i Brydain i weithio fel caplan personol i Selina Hastings, Arglwyddes Huntingdon. Erbyn hyn roedd ei boblogrwydd wedi lleihau ac eglwys y Tabernacl yn Llundain lle y bu'n fugail wedi edwino a daeth llawer o wrthwynebiad i'w ran. Bu'n ôl ac ymlaen dros yr Iwerydd er mwyn cadw golwg ar ei fuddiannau yno. Agorodd ei ail gapel yn Llundain ar Tottenham Court Road ar gyfer pobl dda eu byd.

Ni chafodd iechyd da yn ystod ei oes a bu farw yn syth ar ôl oedfa bregethu awyr agored yng nghartref y gweinidog Presbyteraidd yn Newburyport, Massachusetts, New England. Claddwyd ei weddillion yno o dan y pulpud.